# cwmpas

Creu newid economaidd a chymdeithasol




# Adroddiad effaith
## 2023-2024

cwmpas

# Ein dangosyddion perfformiad allweddol

Busnesau cymdeithasol sy'n cael cymorth:
**544**

Busnesau cymdeithasol newydd a ymgorfforwyd:
**74**

Busnesau newydd sy'n eiddo i weithwyr a gynorthwyir gan Cwmpas:
**10**

Swyddi a ddiogelwyd trwy berchnogaeth gan weithwyr:
**139**

Pobl a gynorthwywyd i fynd ar-lein trwy gyfrwng Cymunedau Digidol Cymru:
**30,812**

Staff neu wirfoddolwyr a hyfforddwyd gan Gymunedau Digidol Cymru i feithrin sgiliau digidol:
**3,225**

Swm a godwyd trwy gynlluniau cyfranddaliadau cymunedol:
**£1,791,799**

Arian cyfatebol ychwanegol a sicrhawyd:
**£2,006,276**

Grwpiau a sefydliadau a gynorthwywyd i ddatblygu cynlluniau cyfranddaliadau cymunedol:

**11**

Yn ein prosiect Perthyn, dyfarnwyd tua

**£268k**

i 27 o grwpiau, gan gynorthwyo cymunedau Cymraeg eu hiaith i ddatblygu eu syniadau menter gymdeithasol, cydweithfa a thai trwy gynllun carlam

Grwpiau a sefydliadau a gynorthwywyd i ddatblygu tai a arweinir gan y gymuned:

**30**

gyda 265 o gartrefi ychwanegol ar y gweill

Trosiant a gynhyrchwyd drwy incwm contractau a grantiau:

**£6.9m**

Staff a ddywedodd y byddent yn argymell Cwmpas fel lle gwych i weithio ynddo:

**91%**

Staff a ddywedodd eu bod yn ymfalchïo mewn gweithio yma:

**93%**



cwmpas

# Ein gwaith



## Creu economi decach a gwyrddach

Rydym yn gweithio i gynyddu'r gyfran o'r economi sy'n cynnwys mentrau cymdeithasol, cydweithfeydd a busnesau sy'n eiddo i weithwyr.

## Datblygu cymdeithas fwy cyfartal

Rydym yn gweithio i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol drwy gynyddu mynediad, tegwch, amrywiaeth a chyfranogiad.

## Sicrhau bod newid cadarnhaol yn digwydd

Rydym yn gweithio gan gydweithio â phobl a sefydliadau i weithredu er lles y gymdeithas.

cwmpas

# Ein huchafbwyntiau

## Bethan Webber, ein Prif Weithredwr, yn trafod llwyddiannau allweddol y sefydliad yn ystod y 12 mis diwethaf



Mae wedi bod yn flwyddyn a wnaeth barhau i fod yn anrhagweladwy ac ansicr, wrth i ni brofi pwysau ariannol cynyddol, newidiadau gwleidyddol, mwy o wrthdaro byd-eang a digwyddiadau amgylcheddol anodd. Er gwaethaf hyn, gallwn ymfalchïo yn yr hyn yr ydym wedi'i gyflawni wrth inni barhau i weithio tuag at economi decach a gwyrddach.

Fe wnaethom brofi llawer o newidiadau yn fewnol, gyda newid o ran yr arweinwyr ar lefel y Prif Weithredwr a'r bwrdd; fe wnaeth ein hymddiriedolwr hirsefydlog, David Jenkins, ymddeol a phenodwyd Richard Hughes yn Gadeirydd yn ei le.

Profwyd diwedd arian Ewropeaidd a thaith barhaus o drawsnewid, gan addasu i strwythurau, systemau a ffyrdd newydd o weithio, wrth adolygu a datblygu ein gwasanaethau wrth i ni orfod ymdopi ag amgylchedd allanol cynyddol gymhleth ac ansicr.

Yn allanol, mae cyflymder cynyddol y chwyldro technolegol, argyfwng yr hinsawdd yn dwysáu, ac amgylchedd ariannu cyfnewidiol yn arbennig o anodd i'r trydydd sector. Mae'r ecosystem o'n cwmpas wedi newid mewn ymateb i amgylchedd ariannu gwahanol, ac yn sgil hyn, gwelsom nifer o ddatblygiadau cadarnhaol a mwy o gymhlethdodau a chystadlu.

Daethom yn ymwybodol o'r pwysau ariannol hynod heriol pan gawsom ergyd uniongyrchol yn y gyllideb ddrafft ym mis Rhagfyr 2023, pan fu gostyngiad o 50% yng nghyllideb Cymunedau Digidol Cymru ar gyfer ei 15 mis olaf o gyflawni. Yn y pen draw, cafodd y penderfyniad ei wrthdroi – ond nid heb gost, oherwydd bu'n rhaid i ni gynnal proses ailstrwythuro ac ailgynllunio anodd gyda'r tîm. Fodd bynnag, deilliodd rhai pethau cadarnhaol o hynny wrth inni nodi syniadau a llwybrau newydd ar gyfer ein gwaith cynhwysiant digidol, a chawsom ein rhyfeddu gan yr ymateb cefnogol gan gynifer – gan ddangos pa mor werthfawr ac angenrheidiol yw'r rhaglen.

Rydym wedi parhau i addasu ac ymateb, a gallwn ymfalchïo yn yr effaith y gwnaethom ei sicrhau drwy gydol blwyddyn anodd. Ledled ein rhaglenni, mae'r galw am gymorth yn fwy nag erioed – mae cymunedau ledled Cymru yn parhau i brofi heriau cymhleth a niferus ac mae ein gwasanaethau yn eu galluogi i ddatblygu eu hymatebion eu hunain. Er eu bod wedi wynebu heriau personol mewn cyfnod anodd, mae ein staff wedi parhau i gynnig cymorth o'r safon uchaf, gan weithio'n hynod galed i wneud gwahaniaeth er gwell trwy'r cymorth a gynigir ganddynt i bobl, grwpiau cymunedol, sefydliadau a busnesau a lleol. Gyda'i gilydd, maent wedi sicrhau gwahaniaeth sylweddol er gwell i fywydau llawer o bobl.

Er gwaethaf hyn, erys llawer o waith i'w wneud i drawsnewid yr economi yn un sydd â phwyslais ar fwy o les, drwy fwy o reolaeth ddemocrataidd ar economïau, asedau a gwasanaethau lleol, a dulliau mwy ailddosbarthol ac adfywiol sy'n blaenoriaethu pobl a'r blaned. Erys llawer o bethau anhysbys, ond edrychwn ymlaen ag optimistiaeth at y dyfodol gan ganolbwyntio ar sut y gallwn adeiladu ar sylfaen yr effaith hon – i sicrhau'r newid mwy sylfaenol sydd ei angen yn ein heconomi a'n gwasanaethau, i alluogi pobl a chymunedau i ffynnu.



cwmpas

# Rhaglenni a phrosiectau a ddarperir gan Cwmpas

## Busnes Cymdeithasol Cymru

Mae busnesau cymdeithasol yn fusnesau sy'n blaenoriaethu pobl a'r blaned – maent yn darparu swyddi a gwasanaethau da, yn nes at adref, ble mae cymunedau eu hangen, ac yn aml, ble ceir bylchau yn y ddarpariaeth. Maent yn aml ar flaen y gad o ran yr ymateb lleol i'r heriau mwyaf enbyd sy'n wynebu eu cymuned, a cheir crynodiad uwch o fusnesau cymdeithasol mewn cymunedau sy'n wynebu mwy o heriau economaidd. Mae'r busnesau hyn, sydd wedi'u hangori yn eu cymunedau, hefyd yn darparu cyfleoedd gwirfoddoli pwysig, er mwyn rhoi'r hyder i bobl fynd i'r gweithle.

Mae'r sector wedi wynebu heriau digynsail dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, yn sgil y pandemig, yr argyfwng costau byw a'r argyfwng ynni. Yn sgil diwedd buddsoddiad ar raddfa fawr i'r sector o gronfeydd strwythurol Ewrop, mae Cwmpas wedi gweithio'n galed dros y 12 mis diwethaf i gynnal buddsoddiad yn y sector

Fe wnaeth Cwmpas, ynghyd â'n partneriaid, sef Cwmnïau Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu (Cymru), WCVA ac UnLtd, sicrhau £1.5m gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu'r sector busnes cymdeithasol yng Nghymru eleni. Mae'r cyllid wedi caniatáu inni gyflawni Busnes Cymdeithasol Cymru, fel rhan o deulu Busnes Cymru.

I ategu'r gwaith o gyflawni Busnes Cymdeithasol Cymru, llwyddodd Cwmpas i gael cyllid ychwanegol o Gronfa Ffyniant a Rennir y DU i ddarparu cymorth ychwanegol yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Powys, Ceredigion, Caerffili, Ynys Môn a Gwynedd. Gan ddefnyddio'r buddsoddiad gan lywodraethau'r DU a Chymru, mae Cwmpas wedi cynorthwyo 544 o fusnesau cymdeithasol i ddatblygu a thyfu, ac wedi helpu 74 o fusnesau cymdeithasol newydd i sefydlu.

## Prosiect Cydnerthedd Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru

Mae llawer o gymunedau ledled Cymru wedi profi heriau economaidd a newidiadau cymdeithasol, gan arwain at golli rheolaeth dros asedau lleol hanfodol. Drwy adennill yr asedau hyn drwy gynlluniau Cyfranddaliadau Cymunedol, gall cymunedau adennill ymreolaeth dros eu hadnoddau lleol, gan eu galluogi i fynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau sy'n benodol i'w cymuned. Daeth ein Prosiect Cydnerthedd Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru, a ariannwyd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol Cymru, i ben ym mis Ionawr eleni. Dros dair blynedd y prosiect, fe wnaeth Cwmpas gynorthwyo 18 cymuned i godi £4,959,840. Yn ystod y 12 mis diwethaf yn unig, codwyd £1,791,799, a sicrhawyd £2,006,276 ychwanegol mewn arian cyfatebol.

cwmpas

## Cymunedau Digidol Cymru a Chynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru

Mae Cwmpas yn darparu rhaglenni cynhwysiant digidol ers dros 17 mlynedd. Pan ddechreuon ni yn 2007, roedd 39% o bobl 16 oed a throsodd yng Nghymru wedi'u hallgáu'n ddigidol – 7% yw'r ganran erbyn hyn. Mae cynhwysiant digidol yn bwysig oherwydd mae'n helpu i sicrhau bod pawb yn cael mynediad at y cyfleoedd a'r buddion y mae'r byd digidol yn eu cynnig. Gall wella mynediad at addysg, cyflogaeth, gofal iechyd a gwasanaethau'r llywodraeth, a helpu i leihau arwahanrwydd cymdeithasol ar yr un pryd. Drwy fynd i'r afael â'r gagendor digidol a darparu hyfforddiant a chymorth i sefydliadau sy'n wynebau dibynadwy i'r sawl sy'n profi allgáu digidol, mae Cymunedau Digidol Cymru (DCW) yn creu cymdeithas decach a mwy cysylltiedig. Diolch i gyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru, eleni, mae DCW a'n partner yn y rhaglen, The Good Things Foundation, wedi cynorthwyo 30,812 o bobl i fynd ar-lein ac wedi hyfforddi 3,225 o staff a gwirfoddolwyr i ddatblygu sgiliau digidol. Ond erys rhagor o waith i'w wneud. Wrth i drawsnewidiad technolegol a digidol gyflymu, mae perygl y bydd cenedlaethau newydd a phocedi o'r gymdeithas yn cael eu hallgáu'n ddigidol. Er mwyn atal hyn, rhaid inni sicrhau bod buddsoddiad i sicrhau cynhwysiant digidol yn cael ei gynyddu, nid ei leihau.

Sefydlwyd Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru (DIAW) fel rhan o DCW yn 2019, a'i phrif ddiben yw dod â sefydliadau o bob maint a phob sector ynghyd i ddatblygu mudiad ar y cyd i fynd i'r afael ag allgáu digidol. Eleni, mae nifer yr aelod-sefydliadau wedi cynyddu o 100 i 126. Mae 18 wedi llofnodi'r siarter Cynhwysiant Digidol, ac mae tri wedi llwyddo i ennill achrediad am eu hymrwymiad i ymgorffori cynhwysiant digidol. Mae uchafbwyntiau allweddol eraill yn cynnwys y canlynol:

- Fe wnaethom gyflwyno Cyngor Atodol ac Argymhellion i Dŷ'r Arglwyddi, yn dilyn y sesiwn tystiolaeth lafar yn Ymchwiliad Tŷ'r Arglwyddi i Allgáu Digidol a Chostau Byw gan Gadeirydd DIAW, Hamish Laing.
- Fe wnaethom roi cyflwyniadau i dair carfan o arweinwyr y sector cyhoeddus sy'n rhan o gwrs MSc Arwain Trawsnewid Digidol Prifysgol De Cymru ynghylch pwysigrwydd ymgorffori cynhwysiant digidol mewn trawsnewid digidol.
- Fe wnaethom rannu'r gwersi yr oeddem wedi'u dysgu ynghylch sefydlu Cynghrair â Gogledd Iwerddon, yr Alban, Lerpwl a Manceinion.

## Hyder Digidol Sir Ddinbych

Ariennir Hyder Digidol Sir Ddinbych gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU ac mae wedi darparu hyfforddiant a cymorth uniongyrchol i bobl yn Sir Ddinbych, i geisio cynyddu cynhwysiant digidol yn y sir – mae'r prosiect wedi cynorthwyo dros 350 o drigolion hyd yn hyn. Rydym wedi cynorthwyo sefydliadau lleol, gan gynnwys Llyfrgelloedd Sir Ddinbych; gwasanaeth cyflogaeth Sir Ddinbych yn Gweithio; cymdeithasau tai Grŵp Cynefin, Clwyd Alyn a Tai Cymru a'r Gorllewin; a sefydliadau trydydd sector megis Blossom and Bloom, NEWCIS a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol, a dywedodd 96% o ddefnyddwyr eu bod bellach yn teimlo'n fwy hyderus am ddefnyddio technoleg ddigidol ac, ar gyfartaledd, fe wnaeth defnyddwyr roi sgôr o 4.89 seren allan o 5 i'r gwasanaeth a dywedodd dros 99% y byddent yn ei argymell i ffrindiau a theulu. Mae'r prosiect hefyd wedi darparu dyfeisiau digidol i'r rhai a fyddai'n elwa fwyaf ohonynt ac sydd mewn mwy o berygl na neb o gael eu hallgáu'n ddigidol – er enghraifft, unigolyn â chyflwr iechyd hirdymor sy'n wynebu arwahanrwydd cymdeithasol sylweddol, a gŵr hŷn â nam symudedd a ganfu fod iPad yn aildanio ei frwdfrydedd ynghylch cerddoriaeth ac yn ei alluogi i ailgysylltu â hen ffrindiau.

cwmpas

## Cymunedau yn Creu Cartrefi

Mae argyfwng tai yng Nghymru ar hyn o bryd. Nid oes gennym ddigon o dai fforddiadwy a chymdeithasol i bobl. Mae tai gwerth y farchnad yn cael eu hystyried yn gynyddol yn nwydd yn hytrach na chartref am oes ac mae tai a oedd yn gartrefi teuluoedd ar un adeg bellach yn rhan o'r farchnad rhentu preifat neu'n cael eu defnyddio fel llety gwyliau/Airbnb. Pan fydd y galw'n fwy na'r cyflenwad, mae gwerthoedd y farchnad a rhentu preifat yn cynyddu, gan olygu na fydd pobl leol (boed yn ifanc neu'n hen) yn gallu prynu eiddo. Fel cenedl, rydym yn dal i deimlo effaith y pandemig: costau byw uwch, prinder llafur medrus, prisiau uwch am ddeunyddiau adeiladu, oedi yn y system gynllunio ac ymfudo mewnol – sydd oll yn cyfrannu at yr argyfwng.

Mae ein rhaglen Cymunedau yn Creu Cartrefi yn un rhan o'r ateb. Rydym yn dod â chymunedau ynghyd â thirfeddianwyr lleol, cynghorau, buddsoddwyr a datblygwyr i fynd i'r afael â'r anghenion tai penodol a'r mathau o gartrefi sydd eu hangen ar y gymuned. Eleni, fe wnaethom gynorthwyo 30 o grwpiau ledled Cymru â'r potensial i ddatblygu hyd at 265 o gartrefi cydweithredol newydd. Diolch i gyllid gan y Sefydliad Nationwide a Llywodraeth Cymru, fe wnaethom ddarparu cymorth hanfodol i'r grwpiau hyn a hyrwyddo datrysiadau tai mwy cynhwysol sy'n cael eu llywio gan gymunedau. Fe wnaethom sicrhau grant gwerth £664,000 hefyd gan Sefydliad Oak i ehangu ein gwaith i gynorthwyo cymunedau a dangynrychiolir i archwilio opsiynau tai sy'n cael eu llywio gan gymunedau. Mae cyflawniadau allweddol eraill yn cynnwys y canlynol:

- Sicrhau arian grant cyfalaf gwerth £800,000 gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Gŵyr.
- Cynnwys 'CLH fel cyfrwng i ddarparu tai fforddiadwy' yn y diweddariad i Bolisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru.
- Fe wnaeth dros 400 o bobl fynychu digwyddiadau CLH ledled Cymru.
- Sicrhaodd grwpiau CLH gyllid sbarduno gwerth £100,000 trwy raglen grantiau bychan Perthyn.
- Sefydlu'r Comisiwn Perchnogaeth Gymunedol, gyda Cwmpas yn cael ei gynrychioli fel aelodau.

Mae angen amser i ddatblygu tai. Ar gyfartaledd, bydd saith mlynedd yn mynd heibio rhwng yr adeg dynodi safle a phobl yn symud i mewn i gartrefi – mae angen buddsoddiad hirdymor arnom i sicrhau bod cymunedau'n gallu darparu'r cyflenwad presennol o gartrefi, ysbrydoli mwy o gymunedau i fynd i'r afael â'u prinder tai lleol ac adeiladu mudiad tai ffyniannus sy'n cael ei lywio gan gymunedau sy'n herio'r drefn ac yn diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol.

## Perthyn – Mae'n Perthyn i'n Cymunedau

Mae cymunedau Cymraeg gogledd a gorllewin Cymru yn profi effeithiau perchnogaeth ail gartrefi, llety gwyliau a llety Airbnb. Er y gall yr haf awgrymu economi ffyniannus, y realiti i lawer o bobl yw siopau ac asedau lleol yn cau, a dim tai fforddiadwy i'w rhentu neu eu prynu, gan wthio pobl allan o'u cymunedau lleol – yn ogystal â chau ysgolion a llai o ddefnydd o'r Gymraeg.

Ariennir Perthyn gan strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ac fe'i darperir gan Cwmpas, Partneriaeth Dolan a Planed. Mae Perthyn yn cynnig cymorth i gymunedau Cymraeg ble ceir dwysedd uchel o ail gartrefi – rydym yn cydweithio â chymunedau i ysbrydoli a grymuso pobl i fynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu profi drwy greu mentrau cydweithredol newydd, mentrau cymdeithasol a chartrefi a arweinir gan y gymuned, gyda'r Gymraeg yn elfen allweddol ohonynt.

Mae Cwmpas yn gweinyddu cynlluniau grantiau bychan Perthyn, gan ganiatáu i gymunedau gyflwyno ceisiadau am hyd at £12,500 i gyflymu'r gwaith o ddatblygu eu syniadau a meithrin y gallu i'w hysgogi. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Perthyn wedi cynorthwyo 27 o grwpiau ac wedi dyfarnu grantiau sy'n werth mwy na £260,000 – mae llawer o grwpiau cymunedol wedi cadarnhau na fyddent wedi gallu sicrhau'r cynnydd presennol heb y cymorth hwn. Mae'r cyllid wedi bod yn amhrisiadwy ac wedi galluogi

grwpiau i sicrhau cyfansymiau mwy o gyllid o ffynonellau eraill.

Mae'r grwpiau cymunedol hyn yn dymuno diogelu asedau lleol sydd mewn perygl o gael eu colli, adfywio asedau coll i berchnogaeth cymunedau a sicrhau bod gan bobl leol fynediad at dai fforddiadwy, i'w galluogi i aros yn y cymunedau lle cawsant eu magu. Yn bwysicaf oll, maent yn dymuno gwarchod y Gymraeg ac annog a chynyddu'r defnydd o'r iaith. Mae Perthyn yn sicrhau effaith wirioneddol yn y cymunedau y mae'n eu cynorthwyo ac mae cyfle i ddysgu gwersi o'i lwyddiant. Trwy fuddsoddiad cynyddol a pharhaus, gallai gynorthwyo hyd yn oed mwy o gymunedau ledled Cymru.

## Perchnogaeth gan Weithwyr

Mae perchnogaeth gan weithwyr yn fodel busnes trawsnewidiol sy'n golygu bod gweithwyr wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau corfforaethol a chreu cyfoeth. Rydym wedi profi twf mawr ers dyddiau cynnar cynorthwyo'r diwydiant glo – fe wnaeth Cwmpas gynorthwyo Glofa'r Tŵr i ddod y cwmni mwyaf dan berchnogaeth gweithwyr yng Nghymru.

Mae busnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr yn tueddu i fod yn fwy cydnerth yn achos dirwasgiadau economaidd – mae gan lawer ohonynt gyfraddau trosiant is a lefelau uwch o foddhad gwaith, gan gyfrannu at weithlu ac economi fwy sefydlog, gyda mwy o ailddosbarthu cyfoeth yn lleol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddyblu nifer y busnesau sy'n eiddo i'r gweithwyr yng Nghymru erbyn diwedd tymor presennol y Senedd. Trwy waith caled ein tîm bychan perchnogaeth gan weithwyr Cwmpas, rydym yn falch bod y targed wedi'i gyflawni ddwy flynedd yn gynt na'r disgwyl. Mae hyn yn amlygu'r galw am y model perchnogaeth, gyda'i fanteision i gynaliadwyedd tymor hwy a chynllunio olyniaeth – yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi cynorthwyo 10 busnes i drosglwyddo perchnogaeth i'w gweithwyr, gan helpu i ddiogelu 139 o swyddi lleol. Fe wnaethom gefnogi Llywodraeth Cymru â'u nod o gael gwared ar elw o'r sector gofal plant, drwy ddarparu cyngor ynghylch y modelau sydd ar gael ar hyn o bryd, yn ogystal â sut y gellid addasu'r model EOT i gyflawni bwriad y polisi – gan alluogi busnesau preifat i bontio yn ddiogel ac yn deg. Fe wnaethom gydweithio â nifer fechan o ddarparwyr i ddeall yr heriau sy'n benodol i'w busnesau a sut y gellid gweithredu pob model, gan gynnig argymhellion i swyddogion ynghylch y cyfyngiadau a'r rhwystrau – gyda'r bwriad o leihau'r risg y gallai darparwyr adael y farchnad.

## Gofal Cymdeithasol Cwmpas

Mae busnesau cymdeithasol yn sicrhau manteision gwirioneddol yn y sector gofal cymdeithasol i bobl a chymunedau trwy gydgynhyrchu, atal ac ymyrraeth gynnar. Eleni, mae ein diwygiadau i God Ymarfer Rhan 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi cryfhau'r ddyletswydd gyfreithiol a bennir i awdurdodau lleol i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau sy'n cael eu llywio gan ddefnyddwyr/dinasyddion a'r trydydd sector. Mae hyn yn cynorthwyo i weithredu polisi 'ailgydbwyso gofal a chymorth' Llywodraeth Cymru. Rydym wedi cydweithio â'r cyrff Partneriaeth Rhanbarthol i adnewyddu a newid ffocws Fforymau Adran 16 lleol a rhanbarthol, fel y gall comisiynwyr a busnesau cymdeithasol gydweithio i drawsnewid gwasanaethau gofal a chymorth, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau llesiant a mwy o werth cymdeithasol.

cwmpas

## Newid

O'n gwaith gyda sefydliadau ledled Cymru, roedd yn amlwg bod y trydydd sector mewn perygl o fod ar ei hôl hi o ran y daith trawsnewid digidol, oherwydd roedd y rhan fwyaf o'r buddsoddiad a'r cymorth wedi'i chanolbwyntio'n bennaf ar y sector cyhoeddus. Gan gydnabod cyfraniad pwysig y trydydd sector at economi Cymru a darparu gwasanaethau yn y gymuned, ymunodd Cwmpas â phartneriaid i greu Newid – rhaglen cymorth digidol ar gyfer sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'i darparu gan Cwmpas, WCVA a ProMo-Cymru. Cwmpas yw'r prif bartner cyflawni, ac mae'n cydweithio'n uniongyrchol â sefydliadau ledled Cymru – dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweithio gyda thua 34 o sefydliadau gwahanol i ddarparu cymorth digidol, gan gynnwys:

- Mentora, datrys problemau a chynnig cymorth trwy gymell.
- Gwella cadernid sefydliadau trwy ganolbwyntio ar feysydd sy'n flaenoriaethau o ran mabwysiadu neu wella technoleg.
- Datblygu adroddiadau a chynlluniau cymorth pwrpasol, wedi'u teilwra yn unol ag anghenion a galluoedd sefydliadau unigol.
- Darparu cyngor a chymorth untro i ystod ehangach o sefydliadau nad ydynt eto'n barod i ymrwymo i'r rhaglen gymorth ehangach.

Gan ddangos effaith y prosiect, mae'r sefydliadau rydym wedi'u cynorthwyo erbyn hyn:

- Yn deall y gofyniad ehangach i wreiddio diwylliant digidol ledled y sefydliad cyfan, er mwyn i drawsnewid fod yn llwyddiannus;
- Yn teimlo'u bod wedi'u hysbrydoli i fanteisio ar ddulliau digidol, gan fanteisio'n llawn ar eu heffaith ar y gymdeithas a'u heffeithlonrwydd;
- Yn gallu llywio'r byd digidol, gan weithio'n ddiogel ac yn hyderus;
- Yn recriwtio ac yn cynorthwyo gwirfoddolwyr yn ddigidol;
- Yn creu incwm ar-lein.

## Arweinwyr Cymdeithasol Cymru

Lansiwyd Arweinwyr Cymdeithasol Cymru yn Chwefror 2024 ac mae'n cynnig hyfforddiant ar gyfer arweinwyr wedi'i gymorthdalu'n llawn i gynorthwyo arweinwyr mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol yng Nghymru, yn ystod pob cam o'u taith arweinyddiaeth. Mae'r rhaglen yn bartneriaeth rhwng Cwmpas, Clore Social Leadership a CGGC ac fe'i hariennir gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol. Dyma nodau'r rhaglen:

- Datblygu arweinwyr ledled Cymru a wnaiff ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf a galluogi'r trydydd sector i ffynnu;
- Ymgysylltu ag arweinwyr o gefndiroedd amrywiol;
- Annog cydlyniant a chydweithredu mewn cymunedau.

Byddwn yn cydweithio â phartneriaid i fonitro effaith barhaus y prosiect yn fanwl.



cwmpas

# Ein gwaith ledled Cymru

## Gogledd Cymru

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein hymdrechion yng ngogledd Cymru wedi canolbwyntio ar hyrwyddo'r model perchnogaeth gan weithwyr a gwella hyder digidol. Trwy Gyllid Ffyniant Gyffredin y DU, rydym wedi cydweithio â Chyngor Sir Gwynedd i hyrwyddo perchnogaeth gan weithwyr i'r gymuned fusnes a helpu Gwynedd i ddod yn Sir Perchnogaeth gan Weithwyr. Yn sgil gwaith da DCW yn y rhanbarth, cawsom ein gwahodd i ddatblygu rhaglen cymorth digidol ar gyfer Sir Ddinbych.



cwmpas



## Astudiaeth achos ynghylch Perchnogaeth gan Weithwyr **BIC Innovation**

Mae BIC Innovation Ltd yn gwmni ymgynghori preifat sy’n arbenigo mewn hwyluso arloesedd, datblygu strategaethau effeithiol, gwella perfformiad, marchnata a chynyddu. Mae arloesi yn elfen allweddol o holl waith y cwmni. Wrth iddo ystyried cynllunio olyniaeth hirdymor, dechreuwyd ystyried sicrhau bod y busnes yn aros yng Nghymru, yn agos at ei wreiddiau, fel y gallai barhau i gynorthwyo’r gweithwyr a’r cymunedau yr oedd yn gweithredu ynddynt. Fe wnaeth tîm Perchnogaeth gan Weithwyr arbenigol Cwmpas ei gynorthwyo i droi’n Fusnes Hybrid sy’n Eiddo i’r Gweithwyr (EOB) ac mae’r busnes wedi cynyddu ei sylfaen gleientiaid a gwerth y prosiectau y mae’n gweithio i’w datblygu – mae cynhyrchiant wedi cynyddu, ynghyd â boddhad cleientiaid. Mae BIC Innovation Ltd wedi cynyddu ei weithlu fwy na phedair gwaith ac ar hyn o bryd mae’n cyflogi 45 o bobl ledled Cymru. Mae Huw Watkins, y Cyfarwyddwr Sefydlu, yn frwdfrydig iawn am y broses o droi’r cwmni yn un sy’n Eiddo i’w Weithwyr. “Mae dod yn eiddo i’r gweithwyr, a’r ymdeimlad o berchnogaeth a ddaw yn sgil hynny, wedi galluogi ein tîm i gyd-dynnu yng ngwir ystyr y gair. Mae gan bob gweithiwr gyfran yn nyfodol y cwmni ac maent oll yn ymdrechu’n deg i sicrhau ein bod yn gwneud ein gorau i lywio ein ffordd trwy newidiadau economaidd enfawr.”




## Astudiaeth achos Busnes Cymdeithasol Cymru: **Young and Mindful**

Mae Young and Mindful yn Sir Ddinbych yn fenter gymdeithasol sy’n addysgu pobl ifanc mewn ysgolion am fanteision ymwybyddiaeth ofalgar – mae Cwmpas wedi cydweithio ag YAM i ddarparu cymorth a chyngor busnes, i’w helpu i ddod yn fenter gynaliadwy. Fe wnaeth SBW gynorthwyo’r Cyfarwyddwr, Shilpa Vyas, trwy gynnig ystod o asedau hanfodol, yn cynnwys trosi terminoleg yn iaith gyffredin, creu polisïau adnoddau dynol a chynllunio’r busnes. Fe wnaeth hyn helpu Shilpa i gael y gwasanaethau priodol a dod i wybod sut yn union mae menter gymdeithasol yn gweithredu. Dywedodd Shilpa: “Mae’r gwasanaethau hyn wedi ein helpu i greu sylfaen gref, rhywbeth sy’n mynd i ganiatáu inni dyfu. A dweud y gwir, mae Cwmpas a Busnes Cymdeithasol Cymru yn cynnig cymaint.” Roedd yr adborth gan ddisgyblion Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Trelawnyd yn cynnwys: “Rwyf wedi dysgu … peidio â gadael i boeni feddiannu’r diwrnod a bod yn bresennol” ac “Mae’n fy ngorfodi i wneud penderfyniadau gwell.”

## Canolbarth Cymru

Yn y canolbarth, rydym wedi cynorthwyo cymunedau i gymryd perchnogaeth o asedau ac ymchwilio i godi cyllid drwy gyfranddaliadau cymunedol. Rydym hefyd wedi cydweithio â chynghorau Ceredigion a Phowys i gael gafael ar Gyllid Ffyniant a Rennir y DU i ariannu adnoddau ychwanegol, er mwyn cynorthwyo â thwf y sector busnes cymdeithasol yn y rhanbarth.



cwmpas



# Astudiaeth achos Tai: **Cymdeithas Budd y Gymuned Ysgol Cribyn**

Nod Cymdeithas Budd y Gymuned yn Ysgol Cribyn yng Ngheredigion yw cydbrynu a datblygu hen ysgol y pentref a'i datblygu'n ganolfan gymunedol fywiog a chynhwysol. Mae tîm Cymunedau Creu Cartrefi Cwmpas wedi bod yn rhan annatod o'r gwaith hwn, ac wedi cynorthwyo â'r strwythur cyfreithiol cychwynnol sy'n ofynnol i ddod yn Gymdeithas Budd y Gymuned, ac ynghyd â phrosiect Perthyn, ei helpu i ddod o hyd i gyllid sbarduno gwerth £12,000. Fe wnaeth tîm Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru Cwmpas gynorthwyo'r grŵp â'r cynnig cyfranddaliadau i godi £70,000 a bydd ein tîm CCH yn ei gynorthwyo i ddod o hyd i weddill y pris prynu. Fe wnaeth Cwmpas hefyd gynorthwyo'r grŵp i lunio cais cryf i'r Gronfa Perchnogaeth Gymunedol. Un o elfennau anhepgor y prosiect yw troi ystafell ddosbarth yn gartref fforddiadwy, gan ddarparu cartref cyfforddus i deulu lleol a chynhyrchu incwm cynaliadwy i dalu am gynnal a chadw'r ganolfan. Dywedodd y grŵp ei fod yn "ddiolchgar iawn" am gymorth parhaus Cwmpas, gan gynnwys cymorth i gynnal arolwg o anghenion y gymuned.



# Prosiect Cydnerthedd Cyfranddaliadau Cymunedol Cymru ac astudiaeth achos SBW: **Radnor Arms Ltd**

Sefydlwyd Cymdeithas Budd y Gymuned Gwesty'r Radnor Arms Limited gan ] gymuned Maesyfed ar ôl cau ei thafarn leol hanesyddol, y Radnor Arms. Ers y cau, roedd y dafarn wedi mynd â'i phen iddi, ac nid oedd gan y bobl leol ganolbwynt yn y gymuned. Trwy greu Cynnig Cyfranddaliadau Cymunedol â chymorth Cwmpas, mae pobl leol wrthi'n gweithio i ailagor y Radnor Arms fel tafarn lewyrchus, ar gyfer pobl leol ac ymwelwyr. Cododd cynnig cyfranddaliadau cychwynnol y gymdeithas swm anhygoel o £147,755, gan ganiatáu iddi brynu'r dafarn, talu am gostau megis tynnu asbestos, sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel a'i adnewyddu, a phrynu cyflenwadau ac agor y ddau far. Yn dilyn arian cyfatebol a grant gan y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol a'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol, mae'r gymdeithas bellach wedi codi £440,000 i gwblhau tri cham cyntaf ailddatblygu'r dafarn.

## Gorllewin Cymru

Rydym wedi cryfhau ein partneriaethau o fewn y rhanbarth dros y 12 mis diwethaf, megis cydweithio â Chyngor Sir Caerfyrddin i dyfu a datblygu'r sector busnes cymdeithasol. Rydym hefyd yn hyrwyddo'r model cyfranddaliadau cymunedol yn y rhanbarth, diolch i bartneriaeth â Chyngor Sir Penfro a Planed, ac mae'r ddau brosiect wedi cael cymorth gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Yn Abertawe, rydym wedi bod yn cefnogi Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Gŵyr i ddatblygu'r gymuned dai gyntaf erioed wedi'i hunanadeiladu yng Nghymru.



cwmpas



## Astudiaeth achos SFP Sir Gaerfyrddin: **People Speak Up**

Mae People Speak Up yn elusen gymdeithasol, iechyd meddwl, celfyddydau, iechyd a lles yn Llanelli. Fe wnaeth yr elusen gysylltu â'n prosiect SPF yn Sir Gaerfyrddin i ofyn am gymorth busnes, oherwydd roedd arni angen cyngor a chymorth ynghylch tendro am gontract i barhau i redeg gwaith Chwarae Stryd ar gyfer Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae Chwarae Stryd yn annog teuluoedd a phlant i ailgysylltu â chwarae ac fe ddatblygwyd y rhaglen yn wreiddiol gan PSU fel prosiect peilot. Cysylltodd ein Hymgynghorydd Busnes SPF â Thendro Busnes Cymru i ddarganfod cyngor ac adborth i'r cleient, gan sicrhau yr enillwyd y cais am y contract – fe wnaeth hyn ddiogelu 6 swydd leol a oedd mewn perygl o gael eu colli heb ein cymorth, gan sicrhau cyllid gwerth mwy na £120,000 dros 2 flynedd. Fe wnaeth hyn alluogi'r prosiect i barhau i gynorthwyo teuluoedd lleol gan gyfrannu oddeutu £10,000 at yr economi leol. Mae'r adborth gan y cyfranogwyr ifanc yn cynnwys: "Rwy'n hoffi'r cyfle i ddod i adnabod ffrindiau y mae Chwarae Stryd yn ei gynnig... a chael treulio mwy o amser y tu allan." Mae Cwmpas yn parhau i gynorthwyo.



## Astudiaeth achos DCW: **Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe**

Mae Cymunedau Digidol Cymru wedi bod yn cydweithio'n agos â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe i hyrwyddo cynhwysiant digidol trwy brosiect Ein Cymdogaeth. Fel rhan o'r rhaglen, mae DCW wedi hyfforddi gwirfoddolwyr SCVS i fod yn Hyrwyddwyr Digidol sy'n mynd ati'n rhagweithiol i gynnig cymorth â chynhwysiant digidol yn y gymuned leol. Un fenter yw cydweithrediad â Llyfrgell Ganolog Abertawe, lle mae Hyrwyddwyr Digidol yn cynnal sesiynau galw heibio wythnosol yn rhad ac am ddim i helpu ymwelwyr sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol i gael mwy o fudd yn sgil bod ar-lein. Dywedodd Karen Davies, Prif Lyfrgellydd Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Abertawe: "Mae cyfranogiad Cymunedau Digidol Cymru ac SCVS wedi bod yn hynod ddefnyddiol o ran y capasiti a'r gallu ychwanegol rydym wedi'u sicrhau i helpu pobl ... O ran datblygu sgiliau digidol, gallwn gynorthwyo pobl i wneud hynny, ond yn bwysicach na dim, gallwn eu cynorthwyo i fod yn hyderus ac yn annibynnol a gwneud hynny eu hunain."

cwmpas

## De-Ddwyrain Cymru

Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi ymgeisio am gontractau masnachol i gynorthwyo awdurdodau lleol i ymgysylltu â busnesau cymdeithasol yn eu hardaloedd, ac wedi ennill y contractau hynny. Rydym wedi cynorthwyo RhCT, Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg – mae hyn yn cynnwys mapio data ynghylch busnesau cymdeithasol, cadwyni cyflenwi gwerth cymdeithasol a sut i lenwi bylchau o ran y cyflenwyr sydd ar gael gan ddefnyddio busnesau cymdeithasol lleol, i sicrhau bod mwy o arian a ddefnyddir i gaffael yn cael ei wario'n lleol.






## Astudiaeth achos DCW: **Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

Ym mis Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer DCW gyda'r nod o wella sgiliau digidol a hyder mewn cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru. Mae CDC wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid megis Gypsies and Travellers Wales (GT Wales) i hyrwyddo cynhwysiant digidol, gan gynnwys darparu hyfforddiant ynghylch Sgiliau Digidol Hanfodol a Hyrwyddwyr Digidol a chynorthwyo â chynllun benthyca cyfrifiaduron llechen. Mae DCW hefyd wedi datblygu fideo ar y cyd â swyddogion ymgysylltu GT Wales ac aelodau o'r gymuned, i godi ymwybyddiaeth o rwystrau digidol a sefydlu meincnod er mwyn gallu mesur cynnydd yn y dyfodol. Mae adborth gan fuddiolwyr y cynllun benthyca teclynnau yn cynnwys: "Mae gallu defnyddio iPad yn golygu bod pethau yn llawer gwell. Bellach, gallaf ddefnyddio'r ap theori gyrru pan na fydd GT Wales gyda fi. Mae fy sgiliau digidol yn gwella'n ddiddiwedd" ac "Yn sgil y cymorth hwn, rwy'n gobeithio cael lle mewn coleg a gadael â chymwysterau i allu cael swydd."




## Astudiaeth achos Tai: **Rhisom Housing Co-op**

Sefydlwyd Rhisom Housing Co-op yn 2023 fel cwmni tai cydweithredol yng Nghaerdydd, i ddarparu tai fforddiadwy newydd ar gyfer y gymuned LHDTC+ – i geisio mynd i'r afael ag anghenion tai cymuned ymylol sy'n profi problemau tai a digartrefedd. Mae ansicrwydd o ran tai yn y gymuned LHDTC+ yn sylweddol, ac mae pobl yn profi amddifadedd materol, unigrwydd ac unigedd, yn enwedig pobl iau. Yn aml, ceir tystiolaeth o wahaniaethu wrth geisio llety yn y sector rhentu preifat, ar ben anawsterau o ran fforddiadwyedd. Cydweithiodd Cwmpas â Rhisom i greu ymateb trwy brosiect tai sy'n cael ei lywio gan y gymuned a fydd yn darparu glasbrint ar gyfer y model tai cydweithredol yng Nghaerdydd ac yn galluogi Rhisom i gynorthwyo cymunedau ymylol eraill i greu eu cydweithfeydd tai eu hunain. Rydym yn aros am ganlyniad cais am gyllid gan Lywodraeth Cymru i ganiatáu prynu swyddfa wag yn y ddinas, i'w throi'n dŷ cyffredin â 7 ystafell wely, yn cynnig rhenti fforddiadwy a gofod cymunedol.

# Ein gwaith ym maes polisi

## Dan Roberts, Swyddog Polisi ac Ymgysylltu, yn cynnig trosolwg o'n gwaith polisi a materion cyhoeddus

Un o nodau trawsbynciol Cwmpas yw bod yn sefydliad dylanwadol sy'n defnyddio ein profiad a'n dirnadaeth i newid y ffordd y mae'r economi a chymdeithas yn gweithio. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein tîm Polisi a Chyfathrebu wedi mynd ati'n rhagweithiol i geisio dylanwadu ar yr agenda bolisi, gan weithio ledled sefydliad Cwmpas i nodi rhwystrau sy'n atal twf y sectorau rydym yn gweithio ynddynt a chynnig atebion arloesol.



Pedair blynedd ers cyhoeddi Gweledigaeth a Chynllun Gweithredu Deng Mlynedd dylanwadol y fenter gymdeithasol, mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Mentrau Cymdeithasol wedi dod ynghyd ac wedi gweithio'n strategol i godi proffil menter gymdeithasol fel y model busnes delfrydol yng Nghymru, dylanwadu ar bolisi a chynorthwyo mentrau cymdeithasol yn ystod eu taith. Yr hydref hwn, byddant yn cyhoeddi adroddiad sy'n ystyried y cynnydd sydd wedi digwydd, yn dathlu'r cyflawniadau hyd yn hyn, ac yn amlinellu'r camau y mae angen eu cymryd i gyflawni ein huchelgais i sicrhau bod menter gymdeithasol yn fodel busnes delfrydol yng Nghymru erbyn 2030.

Mae 2024 wedi bod yn flwyddyn arwyddocaol yng Nghymru yn sgil sawl newid o ran Prif Weinidog. Fe wnaeth Cwmpas fynd ati'n rhagweithiol i ddylanwadu ar siâp maniffestos yr etholiad arweinyddiaeth a llwyddodd i sicrhau bod ymrwymiadau polisi ynghylch caffael gan fentrau cymdeithasol, perchnogaeth gan weithwyr, modelau gofal sy'n cael ei lywio gan y gymuned a chydweithredol a rhagor yn cael eu cynnwys. Edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru i gyflawni ein huchelgais i sicrhau economi fwy cydweithredol yng Nghymru.

Ynghyd â'r gwaith hwn, rydym wedi bod yn ymateb i ymgynghoriadau ac ymchwiliadau gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd, i sicrhau bod datblygu polisi yn dylanwadu'n gadarnhaol ar y modelau a'r sectorau rydym yn eu cynorthwyo. Rydym wedi hyrwyddo mentrau cymdeithasol a modelau cydweithredol a sut i'w cynorthwyo fel rhan o ymholiadau ynghylch yr economi werdd, Banc Datblygu Cymru ac ymchwil ac arloesi, ac mewn ymgynghoriadau ynghylch Fframwaith Pontio Cyfiawn Llywodraeth Cymru, Sgiliau Gwaith Sero Net a'r Gronfa Asedau Segur.

Rydym yn parhau i hwyluso Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ynghylch Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol, gan gynnal cyfarfodydd ynghylch y cyfleoedd i'n sector sy'n deillio o'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus a'i rôl allweddol o ran llenwi'r bwlch o ran gweithredu ym maes polisi yng Nghymru. Ym mis Ionawr, fe wnaeth y grŵp groesawu Co-operatives UK ar gyfer digwyddiad yn y Senedd i lansio ei brosbectws: The Purpose of Mutual and Co-operative Business in Society.

Rydym yn parhau i arwain grwpiau ymgyrchu a rhwydweithiau, gan hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu polisïau a wnaiff gynorthwyo ein sector. Yn benodol, rydym wedi arwain y gwaith o ymgyrchu dros rymuso cymunedau a hawliau perchnogaeth gymunedol yng Nghymru, ac ynghyd â'r Grŵp Perchnogaeth Gymunedol, byddwn yn cyfrannu'n allweddol at y gwaith o ddylanwadu ar y Comisiwn sydd ar y gweill gan obeithio y bydd yn sicrhau hawliau newydd mewn deddfwriaeth yng Nghymru. Rydym hefyd yn gweithio fel rhan o Bartneriaeth Ymchwil y Trydydd Sector a'r Bartneriaeth Cymunedau Dyfeisgar i ddatblygu cysylltiadau rhwng y sector a'r byd academaidd.

Rydym yn mynd ati'n rheolaidd i fynychu cynadleddau pleidiau gwleidyddol ac yn dylanwadu ar randdeiliaid allweddol i ddatblygu eu dirnadaeth o'r modelau rydym yn eu cefnogi a sut y gallant gynorthwyo i sicrhau economi gryfach a thecach.



# Ein gwaith ymgynghori

**Sarah Evans, Cyfarwyddwr Twf Busnes ac Ymgynghori, yn crynhoi effaith ein gwaith ymgynghori.**



## Ymgynghorwyr i sicrhau Newid Cadarnhaol

Sefydlwyd tîm Twf Busnes ac Ymgynghori Cwmpas bedair blynedd yn ôl ac mae'n darparu gwasanaethau ymgynghori busnes i sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Rydym yn ystyried ein hunain yn ymgynghorwyr i sicrhau newid cadarnhaol a chaiff ein gwasanaethau eu llywio gan yr angen i ddatblygu cymunedau cryfach, cyfoethocach. Ein busnes ni yw chwilio am ffyrdd o wneud pethau'n well, drwy hybu arloesi, ymgysylltu ac effeithlonrwydd.

Mae gweithio gyda phobl, cymunedau a busnesau a'u helpu i gyflawni eu nod wrth wraidd ein hethos yn ddi-os. Mae ein gwasanaethau ymgynghori busnes yn canolbwyntio ar gadw cyflogaeth, caffael a chyfleoedd yn lleol, fel y gallwn roi hwb i'r rhai sydd o'n cwmpas.

Eleni, rydym unwaith eto wedi cynyddu cyrhaeddiad ein gwasanaethau ymgynghori ac wedi cynorthwyo dros 30 o gleientiaid i drawsnewid eu gwasanaethau a gweithio'n wahanol. Mae llawer o'r rhain yn gleientiaid newydd gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Celfyddydau Cymru a FOR Caerdydd.

## Cydweithredu â'n cleientiaid

Mae ein tîm Ymgynghori yn cydweithio ag awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, prifysgolion, elusennau, mentrau cymdeithasol a busnesau yn y sector preifat, gan eu helpu i feddwl yn greadigol a gweithredu'n glyfar – fel y gallant wreiddio gwerthoedd cadarnhaol yn eu gwaith sy'n cynnig manteision cymdeithasol ac economaidd cadarn a pharhaol i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Gwerth cymdeithasol, trawsnewid digidol, dysgu a datblygu, strategaeth fusnes, ymgysylltu, gwerthuso ac ymchwil yw rhai o'r offerynnau rydym yn eudefnyddio i gyflawni'r newid cadarnhaol hwn. Mae gan ein tîm cynyddol o ymgynghorwyr gysylltiadau cryf â'n hagenda a'n gwerthoedd polisi cyffredinol, yn ogystal ag agendâu polisi hollbwysig yng Nghymru.

## Start Something Good®

Mae ein rhaglen hacathon a dysgu Start Something Good yn dod â phobl ynghyd i ddatblygu syniadau newydd i sicrhau newid cymdeithasol cadarnhaol. Fe wnaethom dorri cwys newydd wrth gydweithio â chyrff cyhoeddus ledled Cymru, gan ddod â chymunedau a gwasanaethau cyhoeddus ynghyd i greu syniadau arloesol ar y cyd i fynd i'r afael â heriau. Roedd cleientiaid a digwyddiadau ein hacathon yn cynnwys:

- Cyfoeth Naturiol Cymru, i fynd i'r afael ag ansawdd dŵr yn nalgylch afon Teifi.
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn, i fynd i'r afael â materion cludiant a mynediad yn Niwbwrch, Ynys Môn.
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd, gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches i ddarganfod bywoliaethau cynaliadwy.
- Undeb Rygbi Cymru, i archwilio clybiau rygbi'r dyfodol.
- Trafnidiaeth Cymru, i greu prosiectau twristiaeth gymunedol.
- Coleg Iwerydd, i greu prosiectau sy'n dylanwadu ar gymdeithasau yn lleol ac yn fyd-eang.
- GAVO, i ddatblygu strategaeth fwyd ar gyfer Casnewydd gyda rhanddeiliaid ledled y sir.

Eleni, mae ein hacathonau wedi cyrraedd at gynulleidfaoedd newydd er mwyn mynd i'r afael â materion cymdeithasol ac amgylcheddol dybryd. Mae enghreifftiau'n cynnwys:

Ym mis Ionawr 2024, fe wnaethom gynnal y digwyddiad cyntaf erioed gan ddod â busnesau, y trydydd sector a chyrff cyhoeddus ynghyd i ystyried sut y gall busnesau sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd y digwyddiad yn bartneriaeth â Google, Prifysgol Caerdydd ac Ogi, a rhoddwyd cyflwyniadau i Derek Walker, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ym mis Mawrth 2024, fe wnaethom gynnal hacathon deuddydd ym Mhrifysgol Aberystwyth gan ddod â 40 o wyddonwyr, academyddion, rheolwyr tir, ffermwyr, rheoleiddwyr dŵr ac elusennau ynghyd i fynd i'r afael â'r her o wella ansawdd dŵr yn nalgylch afon Teifi. Roedd Julie James AS yn bresennol i wrando ar y meysydd a chyflwynwyd syniadau'r prosiect yn Uwchgynhadledd Afonydd Cymru Gyfan y Senedd.

**Yn ystod y flwyddyn:**

- Fe wnaethom hwyluso 20 digwyddiad Hacathon ledled Cymru, a mynychodd 691 o bobl.
- Lansiwyd 12 prosiect twristiaeth gymunedol ar ôl cynnal yr hacathonau.

cwmpas

- Llwyddodd cyfranogwyr ein hacathonau yng Nghaerffili i sicrhau cyllid grant gwerth mwy na £300,000 i ddatblygu a hwyluso eu syniadau am brosiectau.

## Meysydd gwaith 2023/4

Trawsnewid gwasanaethau – fe wnaethom gynorthwyo sefydliadau a'r trydydd sector i werthuso, gwella a gweithredu newid digidol a sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn addas at y dyfodol.

**Dysgu a datblygu** – gan gydweithio ag arweinwyr cymdeithasol a'r sawl sy'n gweithredu newidiadau cadarnhaol, fe wnaethom gyflwyno rhaglenni, gweithdai a hacathonau yn benodol i annog ymgysylltu, arloesi a chanlyniadau sy'n canolbwyntio ar atebion.


**Gwerth cymdeithasol** – fe wnaethom helpu sefydliadau i ddarparu buddion ychwanegol i gymunedau oddi allan i brif ddiben, er enghraifft, contract. Fe wnaethom nodi gwerth cymdeithasol o fewn busnes, cysylltu'r gadwyn gyflenwi â mentrau cymdeithasol a lleol a chynorthwyo i weithredu strategaeth gwerth cymdeithasol.

**Gwerthuso** – cyflawnodd ein tîm werthusiad ar ôl gwario cyllid/grant a darparu dadansoddiad o'r allbynnau a'r canlyniadau o gymharu â'r amcanion.

**Astudiaethau dichonoldeb** – fe wnaethom gynghori sefydliadau i ddatblygu syniadau a chynlluniau busnes cryf trwy gyfrwng sesiynau hel syniadau, ymchwil, gwerthuso a diwydrwydd dyladwy i gynhyrchu incwm.

**Polisi** – fe wnaeth ein tîm o gynghorwyr weithio'n fanwl ynghylch ymchwil a datblygu yn ymwneud â chaffael, i gynghori'r llywodraeth ynghylch polisïau sy'n fuddiol er mwyn datblygu cyfoeth cymunedau.

**Ymchwil a chyflawni** – fe wnaeth Cwmpas gyflawni contractau ledled Cymru gyda'r nod o ddylanwadu ar gymunedau a gwneud gwahaniaeth er gwell i fywydau pobl.



cwmpas

# **Astudiaeth achos:** Prosiect Economi Gymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr

Bydd y prosiect hwn yn cydlunio datganiad arweinyddiaeth i ategu dyfodol datblygu arweinyddiaeth gymdeithasol yng Nghymru, trwy gyfres o weithgareddau ymgysylltu dros y flwyddyn nesaf.

Ym mis Tachwedd 2023, dechreuodd ein tîm Ymgynghori gyflawni'r Prosiect Cynorthwyo Mentrau Cymdeithasol ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ariennir y prosiect drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU a bydd yn parhau tan fis Rhagfyr 2024.

Rhwng Tachwedd 2023 a Mawrth 2024, fe wnaethom gynnal cyfres o ddigwyddiadau a gweithdai, a fynychwyd gan 74 o fusnesau cymdeithasol lleol a 105 o unigolion.

Fe wnaethom ddarparu cymorth i fusnesau cymdeithasol newydd a rhai a oedd eisoes yn bodoli. Dywedodd un o'r derbynwyr:




"Mae cael y cyfle i fynd i'r hacathon a digwyddiadau eraill o dan arweiniad Cwmpas wedi cynnig cyfle a sgiliau i ni gamu'n ôl o'n model ariannu dibynadwy o ymgeisio am arian grantiau. Rydym wedi gallu ystyried ffyrdd newydd o weithio a nodi partneriaid newydd i gydweithio â hwy. Mae wedi bod yn brofiad cyfoethog iawn, ac rydym wedi gallu rhannu syniadau, pryderon a rhwystrau – gan deimlo efallai y gallwn fod yn rhan o'r ateb."

# **Astudiaeth achos:** Gwerthuso Prosiect Mission Gallery

Dros y 12 mis diwethaf, mae Cwmpas wedi cydweithio â Mission Gallery, oriel gelf yn Abertawe, ac elusen ddigartrefedd Crisis, i werthuso eu prosiect cydweithredol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ymhlith unigolion digartref – a sut y gall celf weithredu fel cyfrwng i wrthweithio unigrwydd ymhlith pobl sydd wedi'u heffeithio gan ddigartrefedd.

Fe wnaethom ddefnyddio ein dull unigryw o werthuso, gan bwysleisio nad yw ein gwasanaeth gwerthuso yn cynnig yr un drefn i bawb ac nad yw ein gwerthuswyr yn archwilwyr. Fe wnaethom deilwra ein dull archwilio ac integreiddio ein hunain yn nhîm y prosiect.

Trwy'r broses werthuso, fe wnaethom fynychu gweithdai a datblygu Theori Newid, i amlygu nodau'r prosiect. I ddechrau, roedd Mission Gallery a'r tîm yn dymuno mesur y data yn ansoddol; fodd bynnag, fe wnaethom awgrymu mai adrodd straeon mynychwyr y gweithdai fyddai'n cynnig y canlyniad gorau. Dywedodd Megan Leigh, Rheolwr Allgymorth Mission Gallery:

"Roedd awgrym Jenny Phillips (Ymgynghorydd Cwmpas) y dylid adrodd straeon yn drawsnewidiol i'r prosiect, oherwydd daeth yn amlwg yn fuan na fyddai ein dull o gasglu data drwy gyfrwng holiaduron yn llwyddo. Llwyddodd Jenny i gyd-dynnu'n naturiol â'r aelodau – roeddent yn awyddus iawn i siarad â hi ac fe wnaeth hynny sicrhau bod y broses gyfan yn un ddi-dor."

Diolch i Jenny, llwyddodd Megan a'r tîm i ymaddasu'n gyflym yn unol â gofynion y broses werthuso newydd, a datblygodd y prosiect sawl stori gan aelodau a oedd yn gyfoethog o ran manylion a hanes eu datblygiad personol. Roedd y dull hwn, yn lle'r dull ansoddol mwy traddodiadol, yn golygu bod gan Mission Gallery a Crisis ganlyniadau hygyrch y gellid eu rhannu'n rhwydd.

Fe wnaeth gwerthusiad Jenny ddatgelu mwy na dim ond straeon hynod ddiddorol yr aelodau. Fel yr eglura Megan:




"Fe wnaeth gwerthusiad Jenny gynnig llawer o wersi ymarferol iawn i'w dysgu y gallai sefydliadau eraill eu defnyddio ac y gallwn ninnau eu datblygu. Roedd cynnig cyfle i'r aelodau adrodd eu straeon yn hynod rymus. Er bod y prosiect wedi dod i ben, llwyddodd Jenny i gyflawni gwaith gwych i nodi cyllidwyr posibl y dyfodol a nodi'r llwybrau eraill y gallem eu dilyn i ddatblygu'r prosiect hwn."

cwmpas

# Ein pobl

## Nicole Leybourne, ein Pennaeth Pobl a Diwylliant, yn adrodd am rai o'r mentrau allweddol rydym wedi ymgymryd â nhw yn ystod 2023/24



Mae 2023 a 2024 hyd yn hyn wedi bod yn gyfnod allweddol i'r Tîm Pobl a Diwylliant. Mae'r busnes wedi profi llawer o newid a'n prif ffocws yw sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu, ein bod wedi ymgynghori â hwy a'u cynorthwyo – er mwyn cynnal ein diwylliant cadarnhaol, ein lles a gweithlu hynod gyfranogol a chryf ei gymhelliant.

Yn ystod ein hadolygiad Rydym yn Buddsoddi mewn Pobl ym mis Hydref 2023, cafodd Cwmpas ei ailachredu â statws Aur ac mae wedi gwneud cynnydd rhagorol tuag at gyflawni statws Platinwm. Nodwyd yn arbennig fod gwerthoedd Cwmpas yn "disgleirio" ym mhopeth a wnawn a bod ein pobl "wedi ymroddi'n llwyr" i'n gwerthoedd, ac "yn eu byw a'u hanadlu bob dydd". Canwyd clodydd Cwmpas hefyd am ei arweinyddiaeth ysbrydoledig, a chyfeiriodd y staff yn aml iawn at y cymorth da y byddant yn ei gael.

Mae Dysgu a Datblygu wedi bod yn ffocws sylweddol – bu 12 o newidiadau mewnol o ran y swyddi, gan arwain at gyfleoedd datblygu newydd i staff presennol, sef 13.5% o'n pobl. Fe wnaethom ddarparu cyfleoedd dysgu trwy gyfrwng siaradwyr yn ein cyfarfodydd a gynhelir bob pythefnos, gan gynnig gwybodaeth a chyngor am faterion megis arian a phensiynau, y Gymraeg a'r Brifysgol Agored. Parhaodd ein pobl hefyd i gael mynediad at (a defnyddio) ein platfform e-ddysgu er mwyn cyrchu cyfleoedd hyfforddiant eraill.

Mae Cwmpas wedi parhau i weithio i gyflawni ei addewid i flaenoriaethu pobl a'r blaned ac mae'n gweithio tuag at gyflawni mentrau sy'n cynorthwyo i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd. Cydweithiodd y staff i blannu 450 o lasbrennau ar dir fferm aelod o'n staff, ac roedd hynny hefyd yn ddigwyddiad i nodi ein pen-blwydd yn 40 oed, a chyfrannodd hynny at Goedwig Genedlaethol Cymru. Fe wnaethom sefydlu cynllun beicio i'r gwaith ac mae 5 gweithiwr bellach wedi prynu beiciau, gan ganiatáu iddynt gymudo i'r gwaith mewn ffordd fwy ecogyfeillgar. Mae Cwmpas hefyd wedi cael ei ailachredu gan gynllun y Ddraig Werdd ar Lefel 3, gan brofi ein bod yn sefydliad sy'n ymgymryd â rheolaeth amgylcheddol ac yn cymryd camau i ddeall, monitro a rheoli ein heffaith ar yr amgylchedd.

Mae Cwmpas yn ymdrechu i roi mentrau sy'n ategu tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant ar waith. Rydym wedi llunio cynllun gweithredu ynghylch tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant, ac rydym yn gweithio yn unol â gofynion y cynllun hwnnw ac yn ei wella'n barhaus. Unwaith eto, rydym wedi cael interniaeth lwyddiannus yn ein tîm Polisi a Chyfathrebu, a roddodd 12 wythnos o brofiad gwaith â thâl – gyda'r nod penodol o annog ceisiadau gan bobl o gefndiroedd ethnig amrywiol, sydd, yn draddodiadol, wedi'u tangynrychioli yn y farchnad lafur yng Nghymru.

Cawsom adborth cadarnhaol gan ein intern, a ddywedodd: "Roeddwn yn teimlo'n hapus iawn y byddai cwmni'n creu'r cyfle hwnnw i interniaid o gefndir lleiafrif ethnig dyfu a bod yn rhan o waith datblygu polisi yng Nghymru. Diolch yn fawr iawn am roi cyfle i mi dyfu."

Fe wnaethom ymrwymo hefyd i dalu Cyflog Byw Gwirioneddol am y gwaith hwn. Mae llwyddiant y rhaglen interniaeth hon wedi arwain at ragor o gyfleoedd i gael interniaethau mewn rhannau eraill o'r busnes – rydym yn bwriadu sefydlu hynny yn ystod 2024.



# Ein materion ariannol

## Joanne Jones, ein Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, yn crynhoi ein sefyllfa ariannol.



Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchodd Cwmpas drosiant gwerth £6.9m. Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu â'r £7.3 miliwn yn y flwyddyn flaenorol, ac mae'n adlewyrchu diwedd yr arian o gronfeydd Ewrop.

Er gwaethaf cyfnod ariannol heriol yn ystod y cyfnod o drawsnewid, fe wnaethom ymdrechu'n deg i leihau'r effaith ar ein capasiti a'n cynaliadwyedd yn y dyfodol. Cynhyrchodd Cwmpas warged gwerth £56,000, a chaiff yr arian hwnnw ei ailfuddsoddi i gynorthwyo â'n pwrpas a'n hamcanion. Gweithredir mwyafrif gweithgareddau Cwmpas ar sail adennill costau.

# Ein cyrff ariannu

Diolch i'n holl gyrff ariannu am eu cymorth:

Llywodraeth Cymru

Sefydliad Natonwide

Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Prosiectau SPF

Sefydliad Oak

# Ein hachrediadau

Rydym yn Buddsoddi mewn Pobl: Aur

Y Ddraig Werdd: Lefel 3

Cyber Essentials ac IASME

Cyber Essentials Plus

Cyflogwr Cyflog Byw

Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd

Achrediad White Ribbon

Cwmpas, Spark, Heol Maendy,
Caerdydd, CF24 4HQ

Rhif ffôn: **0300 111 5050**
Ebost: **info@cwmpas.coop**
Gwe: **cwmpas.coop**

Mae Cwmpas yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn Saesneg. Mae fformatau eraill, megis print bras neu Braille, ar gael ar gais. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg a'n nod yw darparu gwasanaeth o safon gyfartal yn y ddwy iaith.